Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth Arts Centre

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE SUMMER SEASON MUSICAL: THE KING AND I

10 JUNE 2009
PRESS RELEASE

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE SUMMER SEASON MUSICAL: THE KING AND I
23rd July to 29th August 2009

YOUNG LOCAL TALENTS TAKE TO THE STAGE

No summer would be complete without Aberystwyth Arts Centre's Summer Season Show. This year's production is Rodgers & Hammerstein's timeless classic ***The King & I*.**

Aberystwyth Arts Centre's Summer Season Show has run annually for over 20 years and has become something an institution. This year's wonderful musical is brought to the stage by the successful team behind previous Arts Centre summer shows including *West Side Story* and *My Fair Lady*: Directors Michael Bogdanov and Anthony Williams and Musical Director Michael Morwood. So we're sure to be in for another musical treat this year!

Casting has already taken place and a talented line-up of young stars from the local area has been selected. Fifty-two local children will take part in the show. They have already begun rehearsing in preparation for the demanding summer schedule. This is a wonderful opportunity for these young stars to take to the stage, and the show promises to be a lovely exhibition of their emerging talents.

Based on the novel *Anna and the King of Siam* by Margaret Landon ***The King and I*** captured the hearts and minds of millions with its charming story of the British governess brought into the court of Siam to tutor the King's many children. Within the splendour of the Royal Palace, Anna and the King grow to understand one another and learn about each other's cultures. This moving story combined with some of the greatest songs from the golden age of musicals: famous numbers include Shall We Dance, I Whistle a Happy Tune, Hello Young Lovers and Getting to Know You. With gorgeous colourful costumes and exotic sets, ***The King and I*** promises to be the perfect summer season production.

The King and I will run at Aberystwyth Arts Centre from Thursday 23rd July to Saturday 29th August. Evening performances are from Tuesday to Saturday at 7.30pm with matinees on Tuesdays, Thursdays and Saturdays at 2.30pm.

A significant discount is available on tickets for groups of 8 or more at the following prices. Advance booking and payment before 15 June are £15. Bookings from 16 June and after

are £16. This is a saving of £4.50 from the full price, so it's well worth getting a group together! It is possible to make group bookings in the Arts Centre's award winning cafe – for either a light meal or for a special Summer Strawberry Cream Tea.

For individual ticket bookings, tickets for evening performances are £19.50 (£18.50) and for children £16; and for Matinees £17.50 (£16.50) and children £16. Family Tickets are available for matinee performances at £55 to cover 2 adults and up to four children. All tickets are £15 for the Opening Night on Thursday 23 July! Bookings can be made by contacting the Arts Centre ticket office on 01970 62 32 32 or online at www.aber.ac.uk/artscentre

Notes to editors:
Further information is available from Rachel Taylor on 01970 622889 email rst@aber.ac.uk
Further Aberystwyth Arts Centre press releases can be found at www.aberystwythartscentre.co.uk/press.shtml.

Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth Arts Centre

SIOE GERDD HAF CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH: THE KING AND I

10 MEHEFIN 2009
DATGANIAD I'R WASG

SIOE GERDD HAF CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH: THE KING AND I
23ain Gorffennaf tan 29ain Awst 2009

TALENT IFANC LEOL YN YMDDANGOS AR Y LLWYFAN

Ni fyddai unrhyw haf yn gyflawn heb Sioe Gerdd Haf Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Y cynhyrchiad eleni yw sioe glasurol boblogaidd Rodgers & Hammerstein sef ***The King & I*.**

Cynhaliwyd Sioe Gerdd Haf Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth bob blwyddyn ers dros 20 mlynedd ac mae'n dipyn o draddodiad erbyn hyn. Deuir â sioe wych eleni at y llwyfan gan y tîm llwyddiannus a fu'n gyfrifol am nifer o sioeau haf blaenorol yn y Ganolfan gan gynnwys *West Side Story* a *My Fair Lady*: y Cyfarwyddwyr Michael Bogdanov ac Anthony Williams a'r Cyfarwyddwr Cerdd Michael Morwood. Felly gallwn yn sicr ddisgwyl gwledd gerddorol eto eleni!

Dewiswyd y cast eisoes ac mae nifer o bobl ifanc talentog o'r ardal leol wedi cael eu cynnwys. Bydd pum deg dau o blant lleol yn cymryd rhan yn y sioe. Maent wedi dechrau ymarfer yn barod ac mae ganddynt amserlen ddwys o ymarferion o'u blaenau. Dyma gyfle gwych i'r bobl ifanc hyn ymddangos ar y llwyfan ac mae'r sioe yn addo bod yn arddangosfa arbennig o'u talentau amrywiol.

Yn seiliedig ar y nofel *Anna and the King of Siam* gan Margaret Landon bu ***The King and I*** yn apelio at filiynau gyda'i stori hyfryd am athrawes Brydeinig a ddaeth i lys Siam i hyfforddi plant niferus y Brenin. O fewn ysblander y Palas Brenhinol mae Anna a'r Brenin yn dod i ddeall ei gilydd ac i ddysgu am ddiwylliant y naill a'r llall. Ceir yma stori deimladwy ynghyd â rhai o'r caneuon gorau o gyfnod euraidd y sioeau cerdd: mae'r caneuon mwyaf adnabyddus yn cynnwys *Shall We Dance, I Whistle a Happy Tune, Hello Young Lovers* a *Getting to Know You*. Gyda gwisgoedd ysblennydd lliwgar a setiau egsotig, mae ***The King and I*** yn addo i fod y sioe haf berffaith!

Bydd ***The King and I*** yn ymddangos yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth o ddydd Iau 23ain Gorffennaf tan dydd Sadwrn 29ain Awst. Cynhelir sioeau'r hwyr o Nos Fawrth tan Nos Sadwrn am 7.30pm gyda sioeau'r prynhawn ar ddydd Mawrth, dydd Iau a dydd Sadwrn am 2.30pm.

Ceir gostyngiad sylweddol ar docynnau i grwpiau o 8 neu ragor. Os telir cyn 15 Mehefin y pris yw £15 yr un, gyda'r tocynnau yn £16 yr un ar ôl y dyddiad hwnnw. Dyma ostyngiad o £4.50 ar bris y tocyn llawn felly mae'n werth ceisio cael grŵp at ei gilydd! Mae'n bosibl hefyd archebu bwrdd ar gyfer eich grŵp yng nghaffi poblogaidd y Ganolfan - unai ar gyfer pryd ysgafn neu De Mefus ac Hufen arbennig.

Pris y tocynnau i unigolion ar gyfer perfformiadau'r hwyr yw £19.50 (£18.50) a £16 i blant; ac ar gyfer sioeau'r prynhawn £17.50 (£16.50) a £16 i blant. Cynigir Tocyn Teulu ar gyfer perfformiadau'r prynhawn am £55 sy'n cynnwys 2 oedolyn ac hyd at bedwar o blant. Ar y Noson Agoriadol sef 23 Gorffennaf mae'r holl docynnau yn £15 yr un! Gellir archebu tocynnau trwy gysylltu â swyddfa docynnau'r Ganolfan ar 01970 62 32 32 neu ar-lein ar www.aber.ac.uk/artscentre

Nodiadau i Olygyddion:
Ceir rhagor o wybodaeth gan Rachel Taylor ar 01970 622889 e-bost rst@aber.ac.uk
Gwelir rhagor o ddatganiadau i'r wasg gan Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar www.aberystwythartscentre.co.uk/press.shtml.